YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1892. [RHIF 57

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

GWEDDNEWIDIAD BYWYD.

MAE hanes y gweddnewidiad yn un o'r hanesion hyny y mae *rationalism* diweddar yn osod o'r neilldu fel chwedloniaeth bur. Yr oedd Pedr yn cysgu, a darfu iddo (ei) freuddwydio. Cymmerodd storm o daranau le, yr hon a'i dihunodd pan oedd yn breuddwydio ei fod yn gwel'd ei Feistr, Moses, ac Elias yn siarad a'u gilydd. Ond, pan oedd yn llawn effro, ac yr edrychodd, nid oeddynt yno.

Mae y cyfryw esponiad yn ddigon hawdd ac yn ddigon boddhaol, os mai'r amcan yw tynu pob ffeithiau rhyfeddol i lawr i *level* gyffredin. Mae breuddwydion, pelydrau o oleuni, *epileptic fits*, a'r cyffelyb, bob amser wrth law i esponio ymaith bob arddangosiad a phob dygwyddiad dirgelaidd. Os mai amcan meddwl ac astudiaeth yw tynu y rhyfeddol i lawr i'r cyffredin, tynu yr elfen ryfeddol allan o fywyd, dangos na fu ac na fydd dim yn y byd hwn oddigerth cwrs rheolaidd dygwyddiadau dibwys, yna mae yn ddigon hawdd diraddio yr oll sy'n ddyrchafedig ac yn annghyffredin i lefel farw dibwysedd.

Ond a ydym ni yn gwneuthur felly mewn pethau ereill: paham y dylem ni mewn beirniadaeth hanesiol. Yr ydym bob amser yn edrych yn natur am y dyeithr a'r rhyfeddol. Mae dynion yn tramwy miloedd ó filldiroedd er mwyn gweled y *Falls of Niagara*, ac yn ymweled à Switzerland er mwyn gweled mynyddoedd yn ddeng neu bymtheng mil o droedfeddi o uchder. Yr ydym yn myn'd i Rufain i synu at adeilad a gynnwysa hanner can' mil o bersonau. Yr ydym yn cydnabod fod ffeithiau, personau, ac helyntion rhyfeddol yn natur ac yn y bywyd dynol; yr ydym yn chwilio am danynt ac yn eu mwynhau.

Tra y mae y rhyfeddol yn ein boddhau ni yn mhob man arall, prin y dylem ni, ynte, geisio ei esponio ef ymaith o hanes. Gan fod Duw wedi trefnu yn y fath fodd fod coed, mewn dau ddyffryn yn California,

ac mewn unman arall, yn tyfu i uchder o bedwar cant o droedfeddi, p'am na chredwn ni y gall syndod yn awr ac yn y man dori allan mewn bywydau dynol. Mae Hume, ac ereill ar ei ol, yn dweyd fod gwyrth yn groes i bob profiad, ac na ddylem ni, am hyny, ei chredu. Yn mis Tachwedd, 1572, darfu i Tycho Brache, wrth fyned adref o'i arsyllfa un noson am ddeg o'r gloch, wel'd twr o bobl yn syllu ar wrthddrych yn yr wybren. Wrth edrych lan, fe welodd seren newydd nad oedd yno bum' awr cyn hyny. Yr oedd mor ddysglaer nes yr oedd ei ffon yn taflu cysgod yn ei goleu: yr oedd yn danbaid o oleu. Nid oedd yn gomed, 'doedd dim cynffon ganddi. Yr oedd yn fwy dysglaer na Sirius, yn fwy ei maint na Jupiter, a gellid ei gwel'd hyd y nod ar hyd dydd. Parhaodd yn ddysglaer fel hyn am dri neu bedwar mis, gan gadw ei lle, yna diflanodd ymaith yn raddol, ac o'r diwedd aeth o'r golwg yn gyfangwbl, ar ol bod yn weladwy am un mis ar bymtheg. Ond yr oedd yr amgylchiadau cyssylltiedig â hi mor *odd*, fel yr oedd y dygwyddiad, ar yr adeg hono, yn groes i bob profiad, ac, yn ol Hume, ni ddylid credu ei bod yno ar unrhyw dystiolaeth. Ond nid oes un seryddwr yn amheu ei bodolaeth.

Mae y cyfryw ymweliadau o'r rhyfeddol i natur a bywyd yn ymddangos i fod yn rhan o gynllun creadigaeth. Mae ganddynt y dyben hwn—i'n rhwystro ni i edrych ar y bydysawd fel peiriant. Cadwant yn fyw ynom ni y teimlad o ryfeddod, o fraw, ac o ddysgwyliad, y rhai ydynt i gyd yn elfenau dymunol yn y bywyd dynol. Digon tebyg fod *extreme* y ddwy ffordd: ofergoeledd yn un eithafnod, yr hwn sy'n ymborthi ar ryfeddodau, ac yn methu cael digon o honynt; amheuaeth yn yr eithafnod arall, nad yw yn credu mewn dim na all ei deimlo a'i deg bys. Weithiau, mae y ddau yn cydgyfarfod yn yr un person. Weithiau mae person yn ofergoelus lle y dylasai fod yn amheus, ac yn amheus lle y dylasai gredu—megys yn achos yr hen wraig na chredai yn ei mab oedd yn forwr pan y dywedai wrthi am bysgod oedd yn hedfan trwy yr awyr, ond a dderbyniai yn awyddus ei stori ei fod, pan yn mordwyo y Mor Coch, wedi llusgo i'r bwrdd wrth gorn yr angor, un o olwynion cerbydau Pharao. Mae rhai pobl yn gwadu gwyrthiau'r Beibl, ond yn credu yn awyddus yn ngwyrthiau *animal magnetism* ac ysprydegaeth. Mae ereill, fel Pedr, yn dweyd, "Da yw i ni fod yma: gwnawn dair pabell, a byddwn fyw o hyn allan byth ar y mynydd hwn o ryfeddodau." Gwnai ereill, drachefn, pe buasent yno, gau eu llygaid, a gwrthod gweled ffurfiau mawreddog Moses ac Elias.

Wyddom ni ddim, a chawn ni ddim gwybod, digon tebyg,—a 'dyw hi ddim yn ofynol i ni wybod—dim rhagor yn nghylch gwyrth y gweddnewidiad nag a ddywedir wrthym gan yr ychydig frawddegau yn Matthew, Marc, a Luc. Yr oedd adeg yn mywyd yr Iesu pan yr ymagorai y byd ysprydol iddo, a thaflwyd ei byrth mor llydan-agored fel y gallasai hyd y nod y dysgyblion weled ffurfiau y byd hynach yn dal cymundeb âg ef. Siaradai â Moses ac Elias,—y ddau gymmeriad mwyaf urddasol yn yr hanes Iuddewig: un yn sylfaenydd y Wladwriaeth Iuddewig, y llall yn adferydd ac yn ddiwygiwr o honi. Moses, yr hwn oedd yn waredydd cenedlaethol, yn ddeddfroddwr, ac yn

athraw crefyddol; yr hwn a gymmerodd dair miliwn o gaethweision ac a wnaeth o honynt genedl rydd; yr hwn a roddodd iddynt sefydliadau mor werinol nes mae gwledydd ereill, ar ol tair mil o flynyddau, wedi eu mabwysiadu fel sylfaen eu gwladweiniaeth; ac athraw crefydd, egwyddorion mawrion yr hon mewn undduwiaeth a dynoliaeth a gadwodd yn fyw yr *idea* o un Duw yn nghanol amlldduwiaeth ac eiluna-ddoliaeth y cenedloedd. Ac Elias, y diwygiwr ofnadwy, y proffwyd, ffydd egniol yr hwn a ddiwreiddiodd baganiaeth o ganol y genedl, yn herio gormeswyr ar y naill law, a llef y werin ar y llaw arall; dyn o benderfyniad di-ildio, ag oedd, fel llawer o eneidiau gwrol ereill, megys Luther a Cromwell, yn meddu ar ei oriau o dristwch dwfn, pan y ceisiai benderfynu p'un ai marw ai byw oedd oreu. Y fath nerth raid fod wedi dyfod i'r Iesu oddiwrth yr ymgom hono. Os dyrchefir ni uwchlaw ein pryderon a'n gofidiau uniongyrchol trwy gymuno a'r fath eneidiau mawrion yn eu llyfrau, pa faint mwy wrth eu gweled wyneb yn ngwyneb!

Mae y dygwyddiad hwn yn hanes yr Iesu, fodd bynag, yn un o'r dirgelion sydd yn bresenol yn anesponiadwy. Allwn ni ddim o'i esponio na'i ddeall, oblegyd 'does genym ni ddim cyffelyb â'r hwn y gallwn ei gymharu. Yn flaenorol, 'does dim yn annhebygol yn ymddangosiad Moses ac Elias. Os ydyw y sawl a alwn ni yn feirw yn fyw, fel y credwn eu bod, mewn ystyr uwch, p'am na wnant ar brydiau, ar achosion mawrion, ddangos eu hunain? Yr unig beth annhebygol yn y ffaith yw nad yw e' ddim yn arferol. Ni chai un ddeddf natur, mor bell ag y gwyddom ni, ei thori gan amgylchiad fel y gweddnewidiad.

Mae gweddnewidiad yr Iesu, ynte, yn egluro y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n annealladwy a'r hyn sy'n afresymol. 'Dyw hi ddim yn afresymol i'r enaid, yn ei hadegau uwchaf, ogoneddu'r corff: mae yn unig yn rhywbeth nas gallwn ei ddeall na'i esponio.

Fel nad oes, gan hyny, ddim yn anmhossibl, ac yn flaenorol, ddim yn annhebygol, yn y gweddnewidiad, cyfiawnheir ni am dderbyn tystiolaeth y tri efengylwr, y rhai a'i hadroddant fel mater o ffaith, yn ymddybynu ar dystiolaeth tri thyst. 'Dyw hi ddim yn debyg o gwbl y gwnaent hwy, fel dynion gonest, ddyfeisio yr amgylchiad. Ac ni allasai tri pherson fod wedi eu twyllo mewn perthynas iddo. Dywed rhai mai breuddwyd oedd; ond 'dyw tri dyn ddim, fel rheol, yn breuddwydio yr un breuddwyd ar yr un pryd, ac wedi'n yn ei gamgymmeryd fel gwirionedd. Casgliad doeth gan hyny fyddai, ei fod yn hanes dygwyddiad gwirioneddol, ond nad ydym ni yn bresenol yn abl i ddeall ei natur.

Ond gallwn ddeall hyn, mai gweddnewidiad y corff gan yr enaid oedd, yr enaid yn ymbelydru allan trwy y corff. Enghraifft uwch oedd o'r hyn a welwn ni bob dydd,—y corff yn cael ei ogoneddu gan yr enaid. Pan gynhyrfir enaid dyn gan ryw gyffro uchel, mae holl osgo'r corff yn cyfnewid. Pan gyfodai Earl of Chatham ar ei draed ar achlysuron mawrion, yr oedd un drem o'i lygaid yn ddigon i ddystewi pob gwrthwynebydd, hyd y nod tôn ei lais yn cario argy-

hoeddiad. Pan gyfodai Dr. Channing yn y pwlpud i bregethu, yr oedd ei lais ar y dechreu yn wan, ei gorffolaeth yn ymddangos yn fychan, ei wyneb heb un mynegiant. Ond fel yr elai'n mlaen, ymddangosai ei gorff i ymeangu a mwyhau, deuai ei lygaid yn llawn o dân difrifol, adseiniai ei lais trwy y ty, a deuai ei wyneb fel gwyneb angel. 'Rwyf wedi gwel'd y fath edrychiad angylaidd ar wyneb rhai ar fin marw. Yr oeddent hwythau, efallai, yn siarad â Moses ac Elias, a'r Iesu a'r apostolion, neu ag ysprydoedd y cyfiawnion a berffeithiwyd. Pwy nad yw wedi gwel'd y gwyneb plaen yn dyfod yn brydferth gan dân dealldwriaeth, yr agweddau cyffredin yn gariadus gan ddysgleirdeb ewyllys da ac haelioni? Prydferthwch uwchaf y gwyneb yw prydferthwch yr enaid. All dim bod brydferthwch heb enaid; na salwineb â hi.

Os mai dyma ystyr hanfodol y gweddnewidiad, os yw yn golygu gallu yr enaid i ogoneddu y corff, yna mae'n perthyn i ddosparth o adegau a ddeuant i'n holl fywydau. Mae oriau pan yr ymgodwn i gyflwr uwch o argyhoeddiad, o deimlad ac amcan; ac yn y fath oriau, mae natur yn gweddnewid, bywyd yn gweddnewid, gwaith yn gweddnewid, gofidiau a mwyniannau, poenau a phleserau, pobpeth o amgylch ac o fewn, yn cael ei ogoneddu, ac yn ymddangos yn fwy godidog yn llewyrch yr enaid ei hun. Ac y mae adgof o'r fath adegau yn aros gyda ni i'n sirioli ac i'n cynnal yn ein horiau tywyll, ac i gadw fyny ein ffydd mewn daioni ac yn Nuw.

Mae oriau mewn bywyd pan mae natur yn cael ei gweddnewid—pan yr ymddangoswn i wel'd *yr enaid* yn natur. Mewn oriau o lesgedd, mae'r galon yn oer ac yn farw, ac ymddengys y byd allanol yn oer ac yn farw, hefyd. Ond mae yr enaid sydd yn llawn o ffydd a gobaith a chariad, yn llanw pob gwrthddrych allanol â'r un gorfoledd. Felly yr aeth Sant Francis allan i weddio yn nghwmni'r adar, ac y teimla dynion goreu'r byd fod y Dwyfol yn ymdemlu yn yr holl fydysawd.

(I'w barhau.)

Y PARCH. WILLIAM REES, RHYDYGWIN.

Cristion syml, ymarferol, un a'i fawredd yn ei fyw,
Byth yn arfer iaith ymchwyddol – un o'r addfwyn deulu yw.
Gweinidogion llawn hyawdledd geir a'u clodydd ar bob min,
Ant yn ddim yn ymyl symledd William Rees o Rydygwin.

Nid darlunio'r arch-seraphiaid ar orielau'r drydedd nef,
Na dychrynu ofnus enaid â rhyw annaearol lef,
Ond cyfranu'r "dwfr bywiol" i bererin, egwan, blin,
O'r hen ffrydiau tragywyddol a wna Rees o Rydygwin.

Yn Athrofa Dyffryn Aeron bu'n Brif Athraw medrus iawn,
Gwelir llu o'i ysgolheigion yn wyr enwog, llwythog, llawn;

Helpu'r gwan i orfod rhwystrau, crasau'r ffol 'rol
Diolch am wialen-odau William Rees o Rydygwin.

Cofiaf am ei ddwys gynghorion, cyssegredig y'nt i gy
Buont imi fel angorion* mewn ystormydd lawer pryd
Ond rhaid addef gyda dagrau, treuliais ambell orig fli
Oll o achos tori deddfau William Rees o Rydygwin.

Ceir ei bregeth a'i ymddygiad fel pe wedi eu cydwau,
Ar bob adeg mae'r cydgordiad mwyaf trylwyr rhwng y ddau;
Yn mhob gwinllan tyfai rhinwedd, byddai llai o gangau crin
Pe gwnaem efelychu buchedd William Rees o Rydygwin.

Gynt o Athrofa Dyffryn Aeron. JAMES EVANS.

Y PRYD A PH'LE I DDARLLEN.

YN mrys a berw bywyd, clywn yn aml, "Ië, mi garwn ddarllen; ond pryd a ph'le y galla' I—'rwy' I *mor* stresol." Atebwn yn fyr, "*Yn mhob man a phryd y mynoch.*" Byddai hyn yn atebiad digonol, oni bai fod cynnifer yn chwilio mor ddyfal am yr adeg iawn a'r lle iawn, ac yn methu cael y naill na'r llall. Peidiwch edrych am un amser *goreu*, os na ellwch fforddio y diwrnod i gyd. Os gallwch chwi, yr adeg oreu fydd pan mae ynoch chwi y chwant. Mewn bywyd beunyddiol, yr amser goreu yw *unrhyw amser.*

Ond achwyna llawer na allant gael un amser. Yr achos o hyn yw fod ganddynt feddylddrychau rhy eang: edrychant am ryw awr hamddenol na all ddod ar ddiwrnod stresol, a gadawant i'r munydau a allasent gael eu harfer i basio yn ddisylw. Mae gan bob un ryw amser i ddarllen. Efallai mai dim ond ychydig funydau yw; ond gwna funydau oriau. Daeth dynion yn ddysgedig trwy arfer y munydau i ddarllen.

Arferai Dr. Johnson gynghori pobl ieuainc i gael rhyw lyfr ar eu pwys gartref, neu yn eu llogellau oddicartref, i'w ddarllen weithiau, pan na fuasai ganddynt ddim arall i'w wneyd. Gallasai pawb elwa ar y cynghor hwn, pe cydnabyddent werth y munydau dros ben. Beth yw rhai o honynt? Yr holl funydau pan yr ydych yn aros am rywun neu rywbeth. Pan yr ydych yn aros i'r dwfr ferwi, neu i "arglwyddi y greadigaeth" ddod i giniaw os mai gwraig ydych; pan yr ydych yn aros eich tro yn siop yr eilliwr, os mai gwr ydych; pan yr ydych yn aros am y trên, neu gyfaill sydd yn ddiweddar i gadw ei addewid. Pa gynnifer feddyliant am arfer y tameidiau hyn o amser ydynt yn dygwydd mor aml? Etto, maent yn werthfawr: mae y defnydd a wneir o honynt yn bwnc arferiad.

---

* Angorau

Mae un masnachwr, wrth adrodd ei brofiad gyda'r munydau dros ben, yn dweyd, "Yn fy munydau hamddenol yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf, pan yn aros am y trên nu fy nghiniaw, neu wrth gadw fy mhennodiad â phobl oeddynt yn anmhrydlon, yr wyf wedi darllen yn agos i ddau cant o lyfrau bychain. Manteisiai un gwr dysgedig yn Lloegr ar yr amser y cadwai y wraig ef i ddysgwyl iddi orphen ymdrwsio, a dysgodd un o'r ieithoedd diweddar. Cyffesai Henry Ward Beecher iddo ef ddarllen *Hanes Froude* yn ystod yspaid ciniaw. Pan wrthynt eu hunain, darllenai Burns a Byron gyda'u ciniaw. Dywed un o deulu Motley am dano: "Os buasai bum' munyd cyn ciniaw, wedi iddo ddod i fewn i'r parlwr, cymmerai lyfr yn ei law bob amser, a dechreuai ddarllen hyd nes y byddai'r giniaw yn barod."

Dywed Thomas Fuller wrthym i Ben Jonson helpu i adeiladu Lincoln's Inn gyda llwy forter yn ei aw a llyfr yn ei logell, fel y byddai iddo elwa ar y munydau dros ben. Cariai Hugh Miller lyfr yn ei logell bob amser i'r un pwrpas, a phan yn y tŷ yn mysg y seiri maen, ymestynai o flaen y tân, a darllenai yn ei oleu gwelw. Yn ei araeth ar lenyddiaeth, dywed John Moley, "Nid yw yn gofyn un gallu ewyllys goruwch-ddynol mewn dyn na menyw i gael o'r hyn lleiaf awr o ganol diwrnod prysur er mwyn darllen. Ar ddiwedd y flwyddyn, byddwch wedi trysori hapusrwydd, gwroldeb, a doethineb dros oes."

Darllenwch, ynte, yn eich munydau "segur;" ond gwell yw, os gallwch, gael ychydig funydau yn gysson bob dydd, oblegyd mae cyssondeb yn ychwanegu at nerth arferiad. Mae deg, pymtheg, neu ugain munyd o ddarllen y dydd yn ddigon i'ch gwneyd yn gyfarwydd â'r *llyfrau goreu*, a dyma y llyfrau y dylech wybod.

Ond i chwi benderfynu darllen, daw y cwestiwn o le yn reit o hono'i hunan. Gwneir ef i fyny o *unrhyw le* lle y cewch chwi yr hamdden, a lle y dygwyddo'r llyfr fod. Mae pobl wedi darllen mewn rhai lleoedd hynod. Cyrchai un o feirdd yr Alban, Robert Nicholl, i ysgol dair milldir o'i gartref. Arferai ddarllen ar y ffordd, a phan yn ugain oed, dywedai, "Gallaf gerdded can gyflymed a'm cymmydog, a darllen ar yr un pryd gyda'r rhwyddineb mwyaf. Yr wyf hefyd yn darllen llawer iawn yn y boreuau, pan y mae llawer diogyn yn chwyrnu yn ei wely."

Pan yn ddyn ieuanc, cafodd Oliver Wendell Holmes ei gadw y tu allan i Marseilles, am fod afiechydwedi tori allan ar fwrdd y llong y mordwyai efe ynddi, a dywed amyr amgylchiad fel hyn: "Nid oedd ond un llyfr ar fy elw. Gwyddoch beth ddylasai y llyfr hwnw fod; ond nid dyna beth oedd. Hen lyfr Lladin oedd—hanes dau neu dri chant o achosion meddygol hynod. Sut y darllenwn I yr un llyfr hwnw? Nid oeddwn ond prin ugain oed, ond yr wyf yn cofio amryw o'r achosion hyny yn well na llawer un arall a ddarllenais ar y cyfnod hwnw yn fy mywyd. Yr wyf yn amheu os gwyr neb hwy cystal a mi. Dyna ddaeth o'm carchariad I, heb ddim ond un llyfr genyf."

A myned yn ol at amser y Rhufeiniaid, ni a gawn enghraifft dda yn Brutus. Yr oedd efe yn ddarllenwr, a phan ymadawodd â Rhufain ar ol ymadawiad Cæsar, cariodd ei serch i'r gwersyll. Dywed Plutarch

am dano, "Medrai arbed amser: cyflwynai ei amser i ddarllen hyd y drydedd wyliadwriaeth."

Tyn James Freeman Clarke y darlun hwn o un o'i ystafelloedd cyntaf at ddarllen: "Pan oeddwn fachgen, yr oeddwn yn byw yn y wlad, ac adeiladais i mi fy hun ystafell ddarllen yn nghanol cangenau preiffion hen gastanwydden. Yno yr ymneillduwn, ac y treuliwn foreuau hirion i ddarllen chwareugerddi Shakespeare; *Coll Gwynfa*; *Caneuon* Burns; cerddi Wordsworth a Scott. Ymgladdwn ynddynt. Ai yr oriau heibio, ymsuddai yr haul yn is i lawr i'r gorwel, ymsymmudai y cysgodion yn y blaen. Wedi fy llyncu i fyny yn fy llyfr, darllenwn heb sylwi ar ddim. Mae darllen llyfr da fel hyn yn ddygwyddiad yn mywyd dyn."

Gallwch ddarllen yn nghanol trwst a thryblith. Nis gall rhai personau ddarllen oddigerth fod pobpeth yn dawel. Maent yn ein hadgofio ni am y bobl hynod hyny na allant gysgu oddicartref, am nas gallant gario eu gwelyau gyda hwynt. Gallwch ddysgu darllen yn nghanol dwndwr masnach, ac yn merw ymddyddan cyfeillion, fel y dysgwch gysgu yn nghanol trwst dinas. Arferai Dr. Priestley ddarllen yn nghanol swn ei blant yn chwareu oddiamgylch iddo. Darllenai Macaulay wrth gerdded, a gosodai Livingstone ei lyfr ar y rhod nyddu, fel y gallasai gael trem ar frawddeg neu ddwy wrth fyned heibio.

Dengys yr hanesion a'r profiadau hyn mor fyr yr amser ac mor brin y lle all fod o wasanaeth i'r hwn sy'n wir awyddus am ychwanegu at ei wybodaeth a'i allu. Gall pawb bron gael y cyfleusderau hyn, os mynant.

"LEAD, KINDLY LIGHT."

Mr. Gol.,—

Cefais cryn ddyddordeb yn erthygl Hen Ohebydd ar yr emyn hwn yn eich Ymofynydd diweddaf. Yr wyf fi yn mhlith y nifer mawr sydd yn ei edmygu, ac yr wyf yn llwyr gytuno a'r dywediad "Ei fod gyda'r mwyaf tyner, prydferth, ac ysprydol a gyfansoddwyd erioed." Y mae swn enaid ynddo—enaid yn cael ei dosio ar for garw a thywyll amheuon. Y mae y natur ddefosiynol yn cael ei chyffroi i'r gwaelodion wrth ei ddarllen â'r ysprydol, ac yn cael ei dyrchafu i'r awyrgylch burach hono lle mae yr Heulwaw! Tragwyddol yn ymlid i ffwrdd y caddug sydd yn gordoi gwybren ein bywyd lawer pryd.

Cefais fy siomi yn fawr wrth weled fod Hen Ohebydd yn methu deall pa beth sydd yn yr emyn yn teilyngu sylw ac edmygedd mor gyffredinol. Dychmygaf ei fod yn dysgwyl gweled arucheledd a beiddgarwch awenyddol mewn emyn ac nid symlrwydd, naturioldeb, dyfnder teimlad, ac ymddiriedaeth y galon, ac y mae emyn Newman yn gyfoethog o'r priodoleddau hyn. Etto y mae yn anhawdd credu ei fod yn amddifad o'r anhebgorion sydd yn galluogi dynion i werth-

fawrogi emyn mor dyner ac ysprydol ac yntau wedi llwyddo i'w gyfieithu mor wych. Ond nis gellir ei gyfieithu byth yn gywir a boddhaol i'r iaith Gymraeg—a chadw at y mesur gwreiddiol—am y rheswm ei bod mor brin o eiriau unsill. Carwn gael gwybod gan H O., neu unrhyw un arall ag sydd wedi cyfieithu yr emyn, os na ddarfu i brinder unsilleiriog y Gymraeg roddi iddynt gryn ofid.

Rhyw un-ar-ddeg o eiriau lluossill sydd yn yr emyn i gyd gan Newman, tra yn y cyfieithad o hono gan H. O. nid oes llai na 30, ac y mae 32 gan D. yn yr *Emynau o Fawl a Gweddi.* Cymharer, er engraifft, y llinell "Moor and fen, crag and torrent," â chyfieithad H.O. o honi, "Afonydd, creigiau a chlogwyni serth."

Gyda'ch caniatad Mr. Gol., a chydag yspryd gostyngedig a brawdol, gwnawn adolygiad byr ar y ddau gyfieithad wnaethant ymddangos yn Yr Ymofynydd am y mis diweddaf, ac hefyd ar y cyfieithad sydd yn ein llyfr emynau ni.

Yr wyf yn cytuno a H. O. yn nghylch y gair cyntaf, "Fwyneiddiol," ei fod yn annharawiadol; ond y mae'r geiriau dylynol "trwy'r gwyll o'm deutu sy," yn gyfieithad hapus iawn. Buasai'r drydedd linell yn well, yn ol fy meddwl I, fel y canlyn:—"Mae'r nos yn dywell, pell fy nghartref i." Gair llanw yw "cu," nid yw yn y gwreiddiol. Y mae'r ddwy linell olaf o'r pennill yn gyfieithad piwr, ond gallesid eu gwella. Dim digon llyfn yw y frawddeg ddiweddaf o honynt, "'rwy'n foddlon ar un cam." Y mae llinellau D. yn llawer mwy llithrig ac ystwyth:

> "O cadw Di fy nhraed, 'dwyn ceisio dim
> Cael golwg bell,—*un cam sydd ddigon im'*."

Y mae yr ail bennill yn ddifeius nes y deuir ar draws y gair "coegddydd," yr hwn air sydd glogyrnog ac amrosgo iawn, ac yn anmharu yr oll o'r emyn. Gresyn fod Anellydd wedi caniatau i'r fath air garw a thrwsgl fyn'd i fewn. Buasai "hudlewyrn" yn cyfleu meddwl y cyfieithydd hwn am "*garish day*," a chredaf y buasai yn air mwy esmwyth a tharawiadol na "coegddydd."

Y mae y ddwy linell olaf o'r pennill olaf yn neillduol o dda, ac yn cadw at y gwreiddiol yn well na'r ddau gyfieithad arall, ond y mae y gair "ond" yn eu handwyo, ac heblaw hyn, y mae y llinell fel ag y mae gydag ef yn anngramadegol. Ai nid gwell fuasai'r ddwy linell fel hyn, heb son am ramadeg—

> "A'r boreu ddaw a gwenau'r engyl iach
> A gerais gynt, a gollais enyd fach?"

Y mae yr H. O. wedi bod yn ffodus yn ei ddewisiad o "Garuaidd Wawl" am "Kindly Light," ac y mae'r pennill i gyd yn dda; etto nid wyf fi fyhun yn hoffi cystal ag y dymunaswn y rhan olaf o'r pennill—

—"nid golygfaoedd pell,
Mewn t'wyllwch mawr un dyogel gam sy'n well."

Y mae'r gair "golygfaoedd" yn rhy hir mewn emyn, ac nid yw ychwaith mewn arferiad cyffredin. Y mae yn air lluosog cywir am *olygfa*, ond "golygfeydd" yw y gair mwyaf cynnefin i'r lluaws. Feallai y dywed H. O. fod y gair "tragwyddoldeb" i'w ffeindio yn fynych mewn emynau, a'i fod mor lluosog o sillau a'r gair "golygfaoedd," ond wed'yn y mae yn rhaid ystyried nad oes air byrach yn bod am dano. Y mae "t'wyllwch *mawr*" hefyd yn myned dros ben y gwreiddiol. Sut fyddai y ddwy linell hyn, tybed?—

—"ni cheisiaf olwg bell,
Yn y tywyllwch dyogel gam sy'n well."

Yr wyf yn ystyried y ddau bennill olaf yn neilldnol o dda, cystal ag y gellir dysgwyl fel cyfieithad. Odid y bydd i'r geiriau "Tra nwyfus o'wn" am "I loved the garish day" swnio'n od i glustiau rhai, ond y maent yn gyfieithad nobl i'm golwg I, ac yn ei ddetholiad o honynt ymddengys fod H. O. wedi taro yr hoel ar ei chlopa. Caru'r dydd nwyf-lawen, gan ymddiried ynddo ei hun, ac nid yn y "Caruaidd Wawl;" tra-nwyfus mewn hunanymddiriedaeth—dyna ystyr y frawddeg i mi. Nis gwnaeth H. O. gyfieithu y frawddeg yn llythyrenol ac nid oedd angen ychwaith; trosglwyddo'r gwreiddiol yw'r pwnc, ac y mae llawer ffordd i wneuthur hyny. Cymmerer y frawddeg hon er enghraifft, "Charity begins at home;" y cyfieithad llythyrenol ydyw hwn, "Haeledd a ddechreu gartref," ond byddai y cyfieithad yr un cystal pe dywedwn, "Nes i mi fy nghrys na'm pais," neu "Nes penelin nag arddwrn." Y mae cyfieithad D. o'r emyn yn yr *Emynau o Fawl a Gweddi* yn nodedig o dda, gyda'r goreu ydwyf wedi weled, ond nid wyf yn hoffi y frawddeg, "Am ddewis o'wn, a gwel'd y ffordd." Yr wyf yn credu y buasai'r frawddeg yn fwy trefnus ag eglur fel hyn, "Gwneyd ffordd fy hun a'i dewis o'wn."

Nid wyf yn cydfyned a H. O. pan y dywed fod "Dydd tanbaid garwn" yn ysmotyn ar y cyfieithad; ychydig yn *far fetched* yr wyf fi yn ei weled, dyna i gyd. Yr un peth ellir ddywedyd hefyd am y geiriau "trwy'r dyrus anial le," am "amid the encircling gloom."

Nid wyf yn cofio ddarfod i mi weled cyfieithad Mr. Walter D. Jeremy, M.A., ond gan nad faint o deilyngdod a ddichon fod ynddo, y mae dau air rhyfedd, "bydol ffos" am "Amid the encircling gloom," yn sicrhau na ddaw ei gyfieithad yn boblogaidd.

Mr. Gol., yr wyf yn gweled fy mod wedi syrthio yn aberth i'r un pechod beirniadol a'r H.O., ond os gwir yr hyn a ddywed Golygydd *Emynau o Fawl a Gweddi* fod pob emyn y foment y cyhoeddir ef yn dyfod yn *public property*, yna nid pechod mo hono, a gallaf yn ddyogel lechu dan gysgod yr hen ymddiheurad, "Yn mhob pen y mae opiniwn."

IFORYDD.

CREFYDD A GWYDDOR.

Mae crefydd yn helpu gwyddor trwy greu dyddordeb yn y gwirionedd. Mae gwreiddyn pob darganfyddiad mewn gwyddoniaeth yn cael ei borthi a'r argyhoeddiad fod gwirionedd yn bodoli, y gellir ei ddarganfod, ac fod ganddo werth yn annybynol ar y defnydd a'r cymhwysiad a wneir o hono. Mae llawer o ddarganfyddiadau wedi cael eu gwneyd cyn i neb weled sut y gallent gael eu cymhwyso at amcanion dynol. Pan y sylwyd gyntaf ar y cyssylltiad rhwng *electricity* a *magnetism*, 'doedd neb yn gallu rhagweled y cymhwysiad mawr ymarferol a ellid wneyd o'r darganfyddiad yn y *telegraph*, a'r oruchwyliaeth hono y mae dynion yn galw *electro-typing* arni. 'Dyw cariad at y gwirionedd er ei fwyn ei hunan, yr hwn yw gogoniant gwyddor, ddim yn dyfod o un olwg faterol a gymmerir ar y bydysawd. Genir ef o ffydd yn yr Anfeidrol. Mae'n dyfod pan yr ydym yn gweled yn mhob gwirionedd ddatguddiad o Dduw. Cyhoeddwyd ef gan yr apostol pan y dywedodd, "Goleuni yw Duw, ac ynddo ef nid oes dim tywyllwch." Mae yr hen athrawiaeth am Dduw, ei fod yn ddyfnder o dywyllwch, a'r athrawiaeth ddiweddar o Agnosticiaeth, na ellir gwybod dim am Dduw ond ei fodolaeth ef, maent yn ddiallu i gynnyrchu y cariad brwdfrydig hwnw at y gwirionedd er ei fwyn ei hun ag sy'n hanfodol i ddwyn oddiamgylch ddarganfyddiad. Gweled rhywbeth Dwyfol mewn prydferthwch sydd yn gwneyd y gwir gelfyddydwr, a gweled rhywbeth Dwyfol mewn gwirionedd sydd yn gwneyd y gwir wyddonwr. Ac mae hyn, drachefn, yn dyfod o ffydd grefyddol yn yr Anfeidrol, yr Anweledig, a'r Tragwyddol, fel Ffynnon a Sylfaen y meddwl, y gweledig a'r amserol.

Ond tra mae ar wyddor eisieu y gorfoledd a'r gwirionedd hwn yn enaid ac yn yspryd iddi, fel rhywbeth yn Ddwyfol brydferth ynddo'i hunan, mae arno eisieu hefyd fel cefnogaeth iddi, gael gweled sut y gellir ei chymhwyso yn llwyddiannus at amcanion dynol. Mae darganfyddiadau mawrion gwyddor wedi myned i'r bywyd dynol, wedi eu cymhwyso at angenion dynion, wedi tueddu i wasgar cysur yn fwy helaeth, a rhoddi i'r llawer yr hyn oedd o'r blaen yn cael ei fwynhau gan yr ychydig. Ond beth sydd wedi cynnyrchu y duedd hon i wasgar cysuron yn mhlith y mwyafrif? Teimlad o werth anfeidrol pob enaid dynol: teimlad cyffrous o urddas y natur ddynol. Fel ag yr ydym wedi gweled mai yspryd gwyddor yw cariad at y gwirionedd fel gwirionedd, felly ni a welwn fod ei chymhwysiad mewn cariad at ddyn fel dyn. Mae dynolryw yn cael eu dihuno o'u cysgadrwydd, gwneir 'nhw i awyddu am gynnydd.

Allan o'r ffydd Gristionogol hon yn ngwerth y gwirionedd ac yn ngwerth yr enaid dynol mae wedi dyfod y prif ysgogiad i sefydlu ysgolion, llyfrgelloedd, a cholegau. Cafodd yr holl rai hyn eu sefydlu gyntaf gan grefydd, a'u cyflwyno i Grist ac i'r Eglwys. Mae addysg yn ei holl ffurfiau wedi bod yn ganlyniad ymdrech Gristionogol i ddyrchafu ac addysgu y corff o ddynolryw. Trwy yr addysg hon, trwy

y wybodaeth a gyfrenir fel hyn, mae gwyddor wedi cael ei meithrin. Yn y tir hwn mae wedi ymwreiddio.

Cafodd prif athrofeydd Ewrop eu sefydlu gan grefydd. Cafodd ysgolion cyffredin America eu sefydlu gan y Puritaniaid, y rhai, er yn dlawd ac, o braidd, yn abl trwy eu llafur i gynnal bywyd, a bender-fynasant er hyny y cawsai eu plant eu dysgu i ddarllen y Beibl.

'Dyw gwyddor fel gwyddor yn gwybod dim am Dduw, dyledswydd ac anfarwoldeb. 'Dyw crefydd fel crefydd yn gwybod dim am ddarganfyddiad gwyddonol neu am ddeddf naturiol. Mae a fyno un â phethau gweledig ac amserol, y llall a phethau anweledig a thra-gwyddol: ond mae ar un eisieu y llall er dwyn allan ei fywyd llawnaf. Mae crefydd, os yw yn ymdrin yn unig a phethau anweledig, yn dyfod yn fynachaidd, yn gul ac yn wan. Mae arni eisieu darganfyddiadau a dyfeisiadau rhyfeddol gwyddor, er mwyn deall prydferthwch a gogoniant y bydysawd yn yr hwn mae Duw wedi ein gosod ni. Mae gwyddor heb grefydd yn colli ei hysgogiad i gynnydd. Heb y ffydd grefyddol fod presenoldeb Dwyfol yn mhob peth, mae y byd yn dyfod yn fath o beirianwaith difywyd. Heb ffydd yn mlaen-fynediad anfarwol yr enaid, ni ymddengys o fawr gwerth i fyn'd ar ol diwygiad dynol yma. Mae arnom ni eisieu argyhoeddiad o'n tynghed anfeidrol er mwyn gwneyd ein bywyd meidrol o werth ei fyw. Mae arnom ni eisieu gobaith mawr ar ein hysprydoliaeth. Mae dyn yn rhy fawr i gael ei foddhau gan ddysgwyliadau daearol yn unig. Rho'wch chwi iddo ddim ond amser, a 'dyw e' ddim yn hidio am amser. Rhaid i obeithion daearol a nefol fyn'd gyda'u gilydd er mwyn bod yn ddigonol. Rhaid i'r syniad o iawnder gael ei wneyd yn hollol, yn anfeidrol, er mwyn codi dyn uwchlaw ei hunan. Fel hyn mae gwyddor bob amser yn agor cylch eangach i weithgarwch ac ymdrech grefyddol, ac mae crefydd o hyd yn dyfod yn ysprydoliaeth i wyddor.

CYNGHOR

I Risiart y Prydydd o Felin y Gyrnos i beidio a myned i Gyfraith.

TON:—MENTRWCH GWEN.

Un gyfrwys iawn yw'r gyfraith,
Gad hi ar ol, &c.,
Mae'n drech na phobl uniaith,
Gad hi ar ol, &c.;
Tri pheth sydd angenrheidiol,
Er chwilio hon yn fanol,
Sef—dysg a *sens* naturiol,
Gad hi ar ol, &c.,
A byd am olud bydol,
Gad hi ar ol.

'Nol myned at gyfreithiwr,
Gwir yw hyn, &c.
Fe ddichon droi yn fradwr,
Gwir yw hyn;
Y sawl sy'n caru'r gyfraith,
Gaiff lawer tro anhywaith,
A gofid yn gydymaith,
Gwir yw hyn, &c.,
I wylied lawer noswaith,
Gwir yw hyn.

Cei geni air o gynghor,
Beth sydd well, &c.,
Ni all'sa undyn rhagor,
Beth sy well?
Dos yn dy unig negas,
I garu *Shan** fy ngharas,
A'i rhoi dan g'lwm priodas,
Beth sy' well, &c.,
Er mwyn cael dyblu'r dablas,
Beth sy well.

Gyrnos. MR. DAVID EDWARDS.

1815 (?) os nad yn gynt.

NODYNAU GWASGAROG.

EWCH AT YR HEN LYFR.

Ydych chi'n fyr eich amynedd? Eisteddwch i lawr yn dawel, ac ymddyddanwch dipyn a Job. Ydych chi'n benstiff? Talwch ymweliad a Moses. Ydych chi'n myned yn wan yn eich gliniau? Ewch at Elias. Os oes canu yn eich calon, gwrandewch ar Dafydd. Os ydych yn awyddus am hunanles a byd esmwyth, darllenwch Daniel. Os ydych yn tueddu i fod yn grafangus, ewch at Esaiah. Os teimlwch eich calon yn oeri tipyn, ceisiwch gan y dysgybl anwyl i fwrw ei freichiau o'ch amgylch. Os yw eich ffydd yn myned yn fychan, darllenwch Paul. Os oes arwydd diogi arnoch, gwyliwch Iago. Os ydych yn colli golwg ar y dyfodol, dringwch i fyny i'r Dadguddiad, a cheiswch drem ar wlad yr addewid.

---

* *Shân* oedd enw y fenyw oedd ef yn myned i gyfraith â hi. Pwy oedd Risiart y Prydydd, nis gwn—y mae ei enw yn arwyddocaol iawn. Gwelir olion yr hen felin uchod hyd heddyw ar lan afon Taf-Fechan.—*Gwernyfed.*

Y PARCH. J. GWENOGFRYN EVANS, M.A.

Ymddangosodd darlun da iawn o'r brawd parchus hwn mewn rhifyn diweddar o'r *Welsh Weekly*, yn nghyd ag erthygl gymmeradwyol yn rhoi tipyn o'i hanes a'i waith fel llenor. Gwnaed cyfeiriad hefyd at y ffaith iddo fod gynt yn y weinidogaeth, ond nis anturiodd yr "Anwyl" ddywedyd gyda pha enwad. Peidiwch chwithau, Mr. Gol., a bradychu'r *secret*.

"Uwch, uwchach, yr el
Dringed i gader angel."

MARWOLAETH Y DR. JOHN THOMAS.

Mr. Gol.—Nid oeddwn i'n meddwl fawr pan yn ysgrifio'r llinellau i'ch rhifyn cyn y diweddaf (tud. 160) cyfeiriedig at Dr. Thomas y buaswn i mor gynted yn darllen hanes ei farw. Ond dyna'r ffaith, ei fod wedi marw. Yr oedd wedi bod yn glaf iawn, ac yr oedd yn 71 oed, a'i amser wedi dyfod i ben. Er yn anghytuno â'r Dr., yr oedd genyf barch mawr iddo. Meddai ar alluoedd dysglaer, a gwnaeth ddefnydd da o honynt, ac mor bell ag yr oedd efe yn gweled, er lles y cyffredin. Yr oedd yn gul ei farn, ac wedi gwisgo'r spectol enwadol mor hir, fel yr oedd llawer peth nas medrodd erioed gael golwg glir arno. Nid llawer o fisoedd sydd er pan cefais y pleser o wrando arno yn darlithio, a llawer tro rhoddodd i mi ei help parod ar bynciau hanesyddol a bywgraffyddol. Nid oeddwn, ac nid wyf, fodd bynag, yn cytuno ag ef ar bwnc testyn fy llith yn eich rhifyn diweddaf.

Caniatewch i mi wrth derfynu i ofyn eich cenad i wella rhai o'r gwallau mwyaf pwysig yn yr erthygl grybwylledig. Tud. 160, ll. 8, o'r gwaelod, "dynodant i mi yn [hytrach, raddfa] esgynol;" ll. 4, *cwmni* yn lle cadwyni; ll. olaf *garitor* yn lle garcharor; tud. 161, ll. 11, "meum [a'r] tuum;" ll. 12, "bod ychwaith *yma* esgor;" 162, ll. 15, "capeli yn *parhau i* gael;" ll. 16, "*er* feallai." R.J.J.

PENNILL

I eneth ieuanc oddiar Gefn Coedcymer, yr hon oedd wedi hudo hen fab gweddw cyfoethog i'w phriodi o blwyf y Vaenor. Yr oedd efe yn cynnyg rhwymo pymtheg cant o bunnau iddi am ei briodi. Nid oedd ei hoed hi ond pymtheg mlwydd a'i oed yntau yn mhell dros driugain, ac ebe'r prydydd:—

Pymtheg cant o bunna,
Yn barod ar ben bora,
Mor hardd yw 'rhain i ddau liw rhos
A'i gladdu'r wythnos nesa.

—*Wm. Williams, Goedre Coed.*

A oes rhagor o waith y W. W. hwn ar gael? Credaf ei fod.

Gwernyfed.

DALEN O HEN DDYDDLYFR.

Chwefror 17. 1753.

Preceth a brycethwyd ynn y ty
newidd aberdar, gan
Mr Samuel Davies.
S. Luc 13—9 adnod.
Ac os dwg efe ffrwyth da. onid ë
gwedi hynny torr ef i lawr.

Mehefin 19. 1756 n.s. (New Style)

Pregeth a brygethwyd ynn y ty newidd
Aberdar. gan Mr Owen.
Rhufeiniaid 5. 8
Eithr y mae Duw yn canmol ei
gariad tuag attom oblegid a nyni
etto yn bechaduriaid i grist farw trosom ni

Mehefin 19. 20 mathew ar 5.

Ac efe etto yn llefaru wele cwmwl goleu
a'i cysododd hwnt. ac wele lef o'r cwmwl
yn dywedyd hwn yw fy anwyl fab yn yr
hwn i'm boddlonwyd. gwrandewch arno ef.

Dyma gynnwysiad dalen arall.—

Mehefin 12. 1763.

Pregeth a brycethwyd yn ny
tu newidd Aberdar gan Edward Evan
Job 7. 16. Ffieiddiais einioes
ni fynwn fyw byth paid a
mi canys oferedd ydyw fy nyddiau.

Chwefror 12 1754.

pregeth a brycethwyd yn tu
newidd aberdar gan Owen Rees.
Psalmau 18. 8. gosodais yr
Arglwydd bob amser ger fy mron.
am ei fod ar fy neheulaw nim
hysgoger.

Dyna yr ysgrif air am air heb newid un llythyren. Dichon y byddant yn ddyddorol gan rywrai heblaw fy hun.

Merthyr. GWERNYFED.

CYMRU ANGHOFIEDIG.

Yr wyf yn gweled oddiwrth rai rifynau o'r *Cymru* a'r *Cyfaill yr Aelwyd* a ddaethant dan fy sylw, fod cais y golygwyr i symud llen

ebargofiant oddiar rai o enwogion "Cymru Fu." Mae llawer o Gymru o bryd i bryd wedi cefnu arnom ag y carem weled rhyw beth am danynt yn *Yr Ymofynydd.* I ddechreu, dyna "SION IFAN," bardd o ardal Llanwenog, os iawn y'm hyspyswyd, ac un o athrawon Dafydd Llwyd, am yr hwn y dywed Dafydd:

Sion Ifan, gyfan gofiwr,
Penaf ddysg pan yfai ddwr.

A oes modd cael peth o'i hanes?
A thrachefn, dyna,

RYDDERCH FARFGOCH,

un a arferai anerch darllenwyr yr *Ymofynydd* o ardal Llandybie. Nid wyf wedi gweled ei enw er ys blynyddoedd. Pwy sy'n cofio am dano? Gallwn enwi ereill, nad oes fawr cof am danynt, megys Gwilym Brycheiniog, Gwilym Gelli Deg. Byddai gair yn dderbyniol gan

S. N. S.

PENNILL.

I Golyn *(Hinge)* mawr ac sydd ar ddrws Odyn Grasu y Dyffryn—yr hwn a fu gynt ar ddrws annedd-dy y Dyffryn er ys cannoedd o flynyddoedd yn ol yn amser Dafydd Shon-ap Ifan Ddu.

Y Cleddyf ha'rn ysgymyn
Sy nawr ar ddrws yr odyn
Fu gynt gan Dafydd Ifan Ddu
Dechreuad teulu'r Dyffryn.

Toncoch. ED. EVAN.

Palasdy Arglwydd Aberdar yn awr yw y Dyffryn. Y mae Beibl perthynol i hen deulu y lle yn fy meddiant: achubais ef yn ddamweiniol. Ei ddyddiad yw 1678, ac arno ddau *glasp* cryfion, ac mewn cadwraeth dda. GWERNYFED.

SLOJD.

Ydw i ddim wedi gwel'd y gair yn YR YMOFYNYDD; ond gallaf ddywedyd ei fod yn cael ei seinio yn Sloyd a'i fod yn golygu gwaith coed. Yr oedd gweision ffermwyr Cymru gynt yn enwog am eu gwaith mewn coed. Dyma'r gorchwyl a gymmerai i fyny eu hamser yn ystod oriau hwyr y gauaf; ac yn awr pan y mae Cymry (yn ffol dybiaf fi) yn rhoi hyny heibio, cawn y waedd o lawer cyfeiriad am werth addysgol y cyfryw waith, a'r angenrheidrwydd a'r dymunoldeb o'i ddwyn i fewn i'n hysgolion fel cangen werthfawr o addysg. Ni ddylid anghofio addysgu'r llygad gyda'r llaw. Mae'n amheus iawn a ydyw deheulaw'r

Cymro mor gyfrwys ac mor *ddeheu-ig* heddyw ag ydoedd haner can mlynedd yn ol. Edrycher ar y gwaith coed ddaw o Switzerland a dysger y wers. Onid oes lle i ofni fod y Cymro yn cyflym anghofio'r hen eiriau, diwydrwydd, dyfalbarhad, a'r nesaf a ellir at berffeithrwydd?

Q. Q.

LLYTHYR "CEREDIG."

ANWYL OL.,

Yr ydwyf finau yn teimlo dros ein heglwysi gweinion ac yn galaru uwch ben argoelion eu dadfeiliad a'u diflaniad. Mae o gymaint pwys yn fy ngolwg i, i geisio achub y rhai hyn rhag marw ag yw i gychwyn achosion newyddion. Beth ydyw y diffyg a phaham nad allwn ni wneuthur defnydd fel yr enwadau eraill o'n gwyr lleyg? Paham na wnai Ceredig ddyfod drosodd ambell dro i roi help llaw ac i ddeffroi tipyn o sel adnewyddol yn ein plith? Colled fawr Cymru yw fod ein dynion ieuainc goreu, mwyaf gobeithiol yn bwrw eu coelbren yn mhlith y Saeson. Mor fanteisiol fyddai i ni gael pregethwyr dwy-ieithog yn ein capeli Saesneg. A oes dim modd dwyn hyny o amgylch?

P. P.

IDDO EF.

Dygid y geiriau yma yn fynych i fewn i'r emynau, mewn llawer dull a modd. Dyma enghraifft allan o Williams Pantycelyn :—

> Mae rhyw hiraeth yn fy nghalon am gymdeithas bur y nef,
> Lle mae myrdd yn canu'r anthem, anthem cariad "Iddo Ef!"

Ond credaf eu bod wedi eu dwyn i fewn i weddi yn ddiweddar mewn dull na wnaed erioed o'r blaen. Mewn angladd y cymmerodd hyn le, angladd un oedd wedi bod yn flaenor y gan, cyfeiriwyd at hyny yn y weddi. Yr oedd y cyfaill wedi rhoddi boddlonrwydd mawr fel blaenor y gan ar y llawr; ond ei fod yn awr yn canu yn y nef, yn canu'r anthem; ond nid oedd efe mwy yn flaenor y gan. Yr Iesu oedd blaenor y gan yno—anthem cariad "Iddo Ef." Ymddengys hyn yn chwithig, yr Iesu yn flaenor y gan, yn canu'r anthem, anthem o glod iddo ei hunan! Choelia i fawr! Mae yn rhy anhebyg i'r Iesu.

Q.Q.

UNDODIAID YN AELODAU SENEDDOL.

Mae nifer go dda o Undodiaid wedi eu dychwelyd i'r Senedd yn yr etholiad diweddaf—rhai o honynt, megys Mr. Joseph Chamberlain a Mr. Jesse Collings, ac ereill, yn Undebwyr pybyr, tra mae bagad o honynt yn gefnogwyr gwresog i Mr. Gladstone. Mae llawer o'r boneddwyr hyn yn enwog trwy y deyrnas am eu gwybodaeth, eu dylanwad, neu eu safleoedd uchel fel meistradoedd gweithfeydd. Undodiaid selog a Rhyddfrydwyr da ydynt Mr. David Ainsworth, brawd i'r

gweinidog godidog, y Parch. W. M. Ainsworth, yr hwn a fu mor anffodus a syrthio dros fwrdd llong i'r môr, a boddi, pan ar fordaith er mwyn ei iechyd; Syr Henry Roscoe, y fferyllydd enwog, yr hwn, yn ei gangen mewn gwybodaeth, yn ddiamheu, yw yr awdurdod uwchaf yn y deyrnas; Syr James Kitson, o Leeds, meistr gweithfeydd eang; Mr. Caleb Bright, yr hwn sy'n cario enw na adawa'r byd 'mo hono i farw yn fuan; a Mr. Arthur J. Williams, yr unig Undodwr, os nad ydym yn camsynied, sydd wedi ei ddychwelyd dros Gymru. Credwn fod tua scôr o Undodiaid wedi eu hethol, a rhai hefyd wedi eu gwrthod. Y mwyaf adnabyddus yn eu plith i ddarllenwyr yr YMOFYNYDD yw Mr. T. Chatfield Clarke, trysorydd rhagorol y *Sustentation Fund*, yr hwn, trwy ychydig bach o bleidleisiau, a wrthodwyd gan fwrdeisdref Chatham.

MR. GOL.,—Mae yn ymddangos i mi nad wyf yn gwybod etto pa beth yw crefydd, er fy mod yn awr yn 48 mlwydd oed. Hefyd, ymddengys i mi fod dynoliaeth yn amrywio llawer yn ei syniadau am grefydd, a'r rheswm am hyny, efallai, yw fod dynion yn gwahaniaethu yn eu galluoedd meddyliol. Mae yn eglur i mi mai bôd organol yw dyn, a thrwy'r organau hyn y mae pob dyn yn gweithredu—yn gweled, yn clywed, yn caru, yn cashau, yn canu; ac mewn gwirionedd, nis gallwn ni wneuthur dim ond trwy'r organau, yn feddyliol ac ysprydol. Mae pob dyn â'i feddylddrych ei hun am ei Dduw—nis gallwn fyned y tu allan i ni ein hunain i feddwl am dano; a thrwy hyny, mae gan bob dyn, i raddau, Dduw iddo ei hun, a hwnw yn ateb i'w syniadau ef ei hun am dano. Hefyd, y mae yn eglur i mi nad oes eisieu rheswm na chariad ar ddyn crefyddol. Ffydd a gobaith yw'r cyfan sydd yn eisieu i fod yn grefyddol. Os bydd y dyn â'i reswm yn fach a'i ffydd yn fawr, gall y dyn hwnw gredu pa beth bynag a glyw efe.

Mae y Parch. Mr. Jones, Blaenywaun, wedi dyfod yma i Jerusalem, capel y Bedyddwyr, ac mi gefais yr anrhydedd o'i glywed yn pregethu am chwech, nos Sul. Yr oedd y capel yn orlawn, ac yn llawer rhy fach—dwseni yn gorfod troi yn ol o herwydd fod y capel yn rhy lawn. Cymmerodd Mr. Jones ei destyn o Genesis xxiii. 12, 13. Dywedai Mr. Jones nad oedd bywyd moesol dyn yn ddim iddo, os na fyddai wedi cael ei ail eni, ac nad oedd ei weithredoedd yn ddim cyn ei ail-eni. Dywedai mai bratiau budron oeddynt. Wel, Mr. Gol., os ydyw hyn yn wir, nid yr un Duw sydd gan Mr. Jones ag sydd genyf fi. Mae Duw, yr Hwn ag yr wyf fi yn credu ynddo, yn talu i bob un yn ol ei waith ei hun, pa un ai da ai drwg a fyddo. Yr oedd John Calfin wedi cael ei ail-eni pan yn llosgi Servetus; ond yr oedd Calfin yn cael myned i'r nefoedd yn rhwydd, a Servetus, druan, yn gorfod myned i uffern, er iddo ddyoddef ei losgi dros ryddid crefyddol ei wlad. Mae syniadau o'r fath a leferir gan Mr. Jones yn fy nghadw I yn mhell iawn oddiwrth grefydd enwadol. Gallwn feddwl fod Mr. P.P. wedi cael ei wyngalchu â'r athrawiaeth fendigedig hon. Mae yn dywedyd yn ei lythyr yn yr YMOFYNYDD cyn y diweddaf fel hyn: "Pob parch

iddo am y cariad a ddangosodd dros y tlawd a'r angenus. Yr oedd yn amlwg fod ynddo lawer o ddynoliaeth; ond am y peth hwnw, yr agwedd hono o ddynoliaeth sydd yn cael ei harddangosiad yn yr hyn a alwn ni yn grefydd, ymddangosai'n ddiffygiol iawn." Pe buasai y brawddegau uchod o eiddo Mr. P.P. yn dyfod allan o enau Calfin ei hun, ni fuasent fyth yn fwy Calfinaidd. Cariad dros y tlawd a'r angenus sydd yn hollol gydweddol ag Ysprydd Crist. Dywed Mr. P.P. fod llawer iawn o ddynoliaeth yn Mr. Bradlaugh. Pa beth sydd yn angenrheidiol i fod yn grefyddol neu yn sant ond cariad a dynoliaeth? Meddai Mr. P.P., "Yr hyn a alwn ni yn grefydd." Carwn gael gwybod pa beth yw crefydd, os nad yw cariad dros y tlawd a'r angenus, gwirionedd, a dynoliaeth yn rhan o hono. Mae'r Trindodiaid yn dywedyd mai bratiau budron yw gweithredoedd da pob dyn y tu allan i broffes neu eu cyffes ffydd hwy. Mr. Gol., mae genyf fi olwg rydd iawn ar Dduw fel Duw'r Cariad. Yr wyf yn credu ei fod yn derbyn addoliad y pagan pan mae yn addoli ei eilun-dduw, a chredaf fod pob gweithred dda sydd yn dyfod allan o galon pob dyn yn gymmeradwy gan Dduw. Nis gallaf fi gredu y gallwn ni garcharu Anfeidroldeb Cariad Duw rhwng cromfachau cred. Dywed Mr. P.P. fy mod I yn anffyddiwr cyffelyb i Mr. Bradlaugh. Gallaf ei sicrhau nad wyf fi yn gyffelyb i Mr. B.—nid wyf yn feddiannol ar un rhan o ddeg o'i allu ef. Dywedais fy mod I yn gyffelyb iddo yn fy anffyddiaeth am dduwiau'r Trindodiaid; ond fy mod yn meddwl fod gan Mr. B. berffaith hawl i wrthod Duw'r Undodiaid, yn gystal a'r hawl sydd genyf finau i wrthod Duw'r Trindodiaid. Yr wyf yn credu yn ngeiriau yr hen Iolo Morganwg, druan, pan y dywed—

> "Dwylaw glân a chalon bur
> A seilia dân ar Salem dir."

Mae y rhan fwyaf o grefyddwyr ein byd ni yn rhoddi mwy o bwys ar gyffes ffydd nag ar fywyd glân, ac y mae hyn i'w weled bob dydd. Yr wyf yn aml iawn yn meddwl am hyn wrth edrych ar drigolion y cwm hwn yn myned yn dorfeydd i'r Cwrt Bach yn Mhontypridd—yno y byddant, yn frodyr a chwiorydd crefyddol, yn tyngu yn erbyn y naill a'r llall! Pa un yw y bywyd goreu—bywyd Mr. Bradlaugh neu fywyd y Cwrt Bach byth a hefyd? Gadawaf i'r darllenydd farnu drosto ei hun.

J.J., T.

Y PLENTYN MUD.

Dywedir hanesyn toddedig am blentyn mud a byddar yn dweyd, trwy help ei fysedd, stori George Washington a'r pren ceirios. Parhaodd symudiadau y bysedd hyd nes i'r llanc orphen y frawddeg hon, "Pan ofynodd tad George iddo pwy a dorodd ei bren dewisol, gosododd George ei fwyell yn ei law chwith"—— Yna ymhyrodd yr athraw trwy ofyn iddo pa fodd y gwyddai efe i George gymmeryd y

fwyell yn ei law chwith. "Oblegyd," meddai y bachgen, a'i fysedd, "yr oedd arno eisieu ei law ddeheu i ddweyd wrth ei dad mai efe a dorodd y goeden."

Syr,

Gellir dweyd fod yr oes hon mewn cymhariaeth i oesoedd y gorphenol yn oes o ddarllen. Yr oedd yr oesau sydd wedi pasio yn oesoedd darllengar i raddau, ond nid i'r un graddau a'r oes bresenol, a gwahaniaethent lawer mewn cymhariaeth i'r hyn ddarllenent. Yn yr oesoedd a aethant heibio darllenid llyfrau yn hytrach na newyddiaduron a chyhoeddiadau lawer ereill, ac o'r ddau diamheu fod darllen llyfrau yn fwy adeiladol, oblegyd ceir mwy ar yr un pwnc, ac yr ydys yn fwy tebyg felly o gofio rhywbeth; tra yn ein newyddiaduron a'n cyhoeddiadau ceir tipyn o bob peth; felly wedi i un ddarllen drwy y newyddiadur yn dda, mae ei feddwl yn gawdel fflwcs o bobpeth heb un pen na dosben arno; pan fydd arno eisieu rhywbeth at ei wasanaeth o hono, ni wyr ddim un peth yn ddigon clir i'w osod allan, nid oes ganddo ond cawl potes y Gogledd heb allu dyfalu beth yw y gwahanol ddefnyddiau. Un o brif ddiffygion darllen yn yr oes hon ydyw darllen llawer heb ddarllen dim hefyd, h.y., darllen yn y fath fodd fel nas gellir cofio dim o'r hyn ddarllenir. Brasgamir dros y darlleniad gyda'r fath gyflymder, fel nas gellir cartrefu ond ychydig iawn o hono yn y cof, felly pan fydd arnom eisieu defnyddio y cyfryw ffeithiau, maent yn ein meddwl mewn sefyllfa mor gymmylog a niwlog, fel mai anhawsder mawr ydyw cael gweledigaeth eglur.

Diamheu fod un llyfr wedi ei astudio yn dda ac yn drwyadl yn well na deg llyfr ddim ond wedi megys rhedeg drostynt, heb ddal ond ychydig iawn o honynt yn ein meddyliau; o bossibl, mai prif fai darllenwyr yr oes hon ydyw ceisio darllen llawer, a thrwy hyny fethu meistroli un llyfr neu un gangen o wybodaeth yn drwyadl. Teimlaf wedi gorphen darllen y papyr dyddiol fy mod wedi darllen wmbredd o rywbeth, ond mae ynddo'r fath gymmysgfa, fel mae ychydig wn I wedi'r cyfan o'r hyn yr wyf wedi bod yn ddarllen. Credaf y buasai yn llawer mwy buddiol i'r rhai a ddarllenant lawer ar y papyr dyddiol i ddarllen y Beibl a llyfrau da ereill yn hytrach na'r papyr, tebyg y cawsent lawer mwy o fudd ac o bleser wedi dwyn eu hunain i garu y fath ddarllenyddiaeth. Oblegyd nid yw y papyrau dyddiol ond cleber; ychydig o addysgiaeth barhaus sydd ynddynt fel rheol, maent fel Cicaion Jonah, mewn diwrnod y bu, ac mewn diwrnod y darfu; bydd y Beibl a llyfrau da ereill fyw am holl oesoedd y dyfodol, ond am y newyddiadur dyddiol, mae ei ddydd byr ef yn fuan yn myned heibio; gan hyny, afradlon ydyw treulio cymmaint o'r amser gwerthfawr i droi ei dudalenau, tra yr erys y fath lyfrau bendigedig yn anwybodus bron i ni, neu gan mwyaf yn anwybodus i'r rhai mwyaf darllengar a myfyrgar. Rhaid addef fod y newyddiadur yn hylaw iawn, yn d'od atom bob boreu mewn ffordd hawdd i'w ddefn-

yddio, a byddai yn fendith pe gellid dyfeisio ffordd i ddwyn y Beibl allan mewn ffordd fwy rhwydd a hawdd i'w ddefnyddio ; yn awr argreffir holl lyfrau y Beibl gyda'u gilydd fel rheol, fel pe gwnaent golli ar eu gilydd pe gwahenid hwy, gyda'r canlyniad fod y llythyren yn fan iawn, ac yn rhwystr mawr i'w ddarllen a'i fwynhau yn hanner cystal a phe buasid yn cael ychydig o lyfrau'r Beibl gyda'u gilydd, ac yna eu cael mewn llythyren fras rwydd i'w darllen. Ceir yn awr ddau ddewisiad, naill ai cael y Beibl yn llyfr hylaw mewn llythyren fân, neu ei gael yn anhylaw mewn llythyren fras. Dylai pob un ymdrechu cael allan pa lyfrau ddylai ddarllen, pa rai fyddai fwyaf buddiol iddo, a gwneyd ei oreu wed'yn i gadw at y rheol Barnaf y dylai y Beibl gael y lle blaenaf yn narllenyddiaeth pob un, ar sail y gwirioneddau pwysig sydd ynddo, ac ar sail ei brydferthwch a'i werthfawrogrwydd llenyddol.

Yr eiddoch, D. Ff. Dafis.

Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL.

Cynnaliwyd y cyfafodydd blynyddol eleni yn Alltyblacca, dyddiau Mercher ac Iau, y 3ydd a'r 4ydd o Awst. Yr oeddynt, hefyd, yn gwasanaethu fel cyfarfodydd agoriadol i'r capel newydd, oherwydd felly y gellir ei alw, gan fod y cyfan, gyda'r eithriad o'r muriau a'r neu, yn newydd ; a hyn sydd yn cyfrif am fod y cyfarfodydd blynyddol eleni dipyn yn fwy diweddar nag arfer, sef nad oedd y capel yn hollol barod.

Mae y capel hwn yn un o'r rhai Undodaidd hynaf yn Sir Aberteifi ; diamheu y gellid ysgrifenu llawer o erthyglau dyddorol ar hanes y capel hwn o'i ddechreuad, pe y cymmerai rhywun ag sydd yn meddu cymhwysder at y gwaith. Yr oedd yr ychydig sylwadau dyddorol a blasus a gafwyd gan y Proffeswr Evans, diweddar athraw yn Ngholeg Caerfyrddin, yn nghyfarfod prydnawn ddydd Iau, yn creu awydd ynom am dipyn yn ychwaneg yn yr un cyfeiriad ; a phe ymgymmerai y Proffeswr ag ysgrifenu ychydig erthyglau o'r fath, y byddai llawer yn ddiolchgar iddo. Ymddengys fod y capel cyntaf wedi ei adeiladu tua'r flwyddyn 1740 ; ac os nad wyf yn camsynied, yr oedd olion yr adeilad hwnw i'w weled gerllaw yr adeilad presenol hyd o fewn yr ugain mlynedd diweddaf : ond erbyn hyn mae'r oll wedi ei symmud ymaith. Sefydlwyd yr achos yn benaf trwy offerynoliaeth Jenkin Jones, o Llwynrhydowen, yr hwn oedd yn un o'r rhai cyntaf i dori allan yn erbyn Calfiniaeth yn y canrif diweddaf, ac hefyd David Llwyd, Brynllefrith. Yr wyf wedi cael a ganlyn allan o hen gyhoeddiad :—

"Ffurfiwyd yr eglwys hon [yn Alltyplacca] trwy lafur Jenkin Jones, Pantydefaid, a David Llwyd, Brynllefrith. Yr oedd Mr. Llwyd yn nai i Mr. Jones, fab Esther, ei chwaer, hefyd yn fab-yn-nghyfraith iddo, trwy iddo briodi Jane, ei ferch ef o'r ail-wraig. Rhoddwyd *lease* am 99 mlynedd, yn 1741, gan Mr. Griffiths, Galltyplacca, ar ddarn o dir i adeiladu yr addoldy cyntaf yma ; ac yn 1837 cafwyd *lease* o fil ond un o flynyddoedd ar y tir lle yr adeiladwyd y capel presenol,

a phrynwyd gan Mr. Griffith Jones, chwarter cyfer o dir at gladdu, yn ymyl y capel. Y *trustees* yn yr ail *lease* ydynt,—David Jones, Melinyraber; Thomas Lewis, Cross Inn; Rees Edwards, Beilygwyn; David Jones, Cwmyrhendryd, ac eraill." Hefyd, yn yr un cyhoeddiad, enwir y personau a ganlyn fel y swyddwyr a fuont yma,—Thomas Griffiths, Galltyplacca; David Matthew, Felin; Griffith Jones, Ffinant; James Davies, Tynyllyn; Josiah Jones, Ddolwen; Daniel Evans, Lowtre; Thomas Jenkins, Rhydybenau. Digon tebyg fod llawer o dylwyth rhywrai o'r personau yn fyw, ac felly yn rhwym o fod yn cofio llawer o hanes yr hen gapel, yr hwn hanes na cheir mewn un man arall. Trueni na wneid ymdrech i gasglu cymmaint ag a ellir o hono. Fel y gwelir oddiwrth y dyfyniad uchod, adeiladwyd y capel presenol yn 1837, yn amser gweinidogaeth y Parchn. John Davies a D. Evans, B.A. Ac oddiar hyny hyd yn awr, nid oes rhyw welliantau mawr wedi cael eu gwneyd, fel, erbyn hyn, yr oedd yr adeilad yn hollol annghysurus ac anaddas i gyfarfod â gofynion yr oes. Ar ol ymgynghori daethpwyd i'r penderfyniad i'w adnewyddu; ac ar ol gwneyd yr ychydig barotoadau angenrheidiol, gosodwyd y *contract* allan i aelod o'r gynnulleidfa, sef Mr. Thomas Jones, Felinban; ac y mae'r gwaith rhagorol sydd i'w ganfod yn mhob man yn yr adeilad yn dangos fod y gwaith wedi ei ymddiried i'r person iawn. Ac y mae, hefyd, yn galondid mawr i'r gynnulleidfa, ac i'w gweinidog parchus, fod y draul, oddeutu £400, yn agos cael ei chlirio. Gwnaeth y gynnulleidfa, er nad oes pobl gyfoethog iawn yn perthyn iddi, ei rhan yn dda; a daeth cyfeillion da ereill, o bob enwad, yn mlaen a'u cyfraniadau yn haelionus dros ben; ac y mae'r gweinidog i'w longyfarch ar y llwyddiant sydd wedi canlyn ei ymdrechion diflino.

Gellir sylwi fod y capel wedi ei agor ar y Sul blaenorol, pryd y pregethwyd gan y Parchn. J. Davies (y gweinidog) a Thomas Thomas. Dechreuwyd y cyfarfod, nos Fercher, gan y Parch. D. Thomas, Cwmbach; a phregethwyd gan y Parchn. J. Fisher Jones, Gellionen, a W. Ll. Griffiths, Ph.D., B.D. Dechreuwyd boreu dydd Iau gan y Parch. R. C. Jones, a phregethwyd dwy bregeth, un gan y Proffeswr Moore, yn Saesneg, a'r llall gan y Parch. J. H. Davies, Cefn, yn Gymraeg. Deallwn fod pregeth y Profteswr Moore i ymddangos yn yr YMOFYNYDD. Pregethwyd yn y prydnawn a'r hwyr gan y Parchn. Dr. Griffiths, Proffeswr Evans, W. J. Davies, ac R. C. Jones. Nid ydym wedi rhoddi crynodeb o'r pregethau, gan y byddai hyny yn anhawdd heb wneyd cam â hwynt. Gellir dweyd fod y cyrddau wedi troi allan yn llwyddiant yn mhob ystyr. Gellir sylwi, hefyd, mai hwn oedd y tro cyntaf i Dr. Griffiths fod yn bresenol yn ein cyfarfodydd chwarterol; gellir dweyd ei fod wedi gwneyd argraff ffafriol iawn ar y rhai a'i clywsant. Bu hefyd yn pregethu mewn amryw o'n capeli y Suliau canlynol. Perthynai Dr. Griffiths hyd yn ddiweddar i'r enwad Annybynol; aeth trwy gwrs yn Nghaerfyrddin yn llwyddiannus iawn, ac oddiyno aeth i Goleg Yale, America, lle y graddiodd yn B.D. a Ph.D. Y mae yn awr wedi dychwelyd i'w hen wlad, ac oherwydd cyfnewidiadau yn ei syniadau crefyddol, mae wedi ymuno â'r enwad Undodaidd.

Mae'r cyfarfodydd chwarterol nesaf i fod yn Gellionen, y Parch. T. Thomas i bregethu, a'r Parch. R. J. Jones, M.A., i roddi hanes dechreuad yr achos Undodaidd yn y lle ; a'r rhai blynyddol yn Caeronen. Mr. Jones, Aberdar, sydd i bregethu yn Caeronen.

CAPEL BLAENGWRACH.

Mr. Gol,—Yr wyf weithiau yn gweled y *Merthyr Express*; ac mewn rhifyn a ddaeth i'm llaw yn ddiweddar, gwelais nodyn yno gan rywun nad oedd yn rhoi ei enw priodol, yn holi helynt yr hen gapel uchod. Ysgrifenai awdwr y nodyn hwnw oddiar safbwynt yr Annybynwr, ac un oedd a'r ychydig wybodaeth oedd ganddo am y capel yn cael ei anmharu i fesur mawr gan y culni a'r hwn yr edrychai efe ar y pwnc. Dywedai fod y capel wedi bod unwaith yn meddiant yr Independiaid, ond iddo, trwy ryw foddion a edliwiai efe yn enbyd o fod yn annghysson ag anrhydedd a gonestrwydd, basio i ddwylaw yr Undodiaid ; ond fod yr Independiaid yn awr yn bwriadu etto cynnal gwasanaeth yno, ac yn myned i dreuliau mawrion er gwneyd y lle yn ddiddos ac yn gysurus. Yn awr, nid wyf fi yn ddigon cynnefin yn hanes ac helyntion ein hen gapeli i ddweyd pa gymmaint o wirionedd na pha gymmaint o gyfeiliornad sydd yn yr honiadau uchod, ond mi wn, fel y gwelsom mewn erthygl odidog a ymddangosodd yn yr Ymofynydd ychydig fisoedd yn ol, mai hoffaidd waith rhai pobl yw edliw i ni, yr Undodiaid, mai wedi lladrata ein capeli yr ydym oddiar enwadau ereill, ac nad oes genym, mewn gwirionedd, un hawl gyfreithlon iddynt. Mae llyfryn bychan yn fy meddiant, sef "Cofiant y Parch. Lewis Rees, gynt gweinidog yr efengyl yn Llanbrynmair, wedi hyny, yn y Mynyddbach, ger Abertawy, gan y Parch. J. Roberts, Llanbrynmair ; gyda chwanegiadau helaeth gan John Davies, Mynyddbach." Amseriad y llyfryn sydd gen I yw 1852. Yn y llyfryn hwn, dywedir yn ddibetrus mai trwy ffordd amheus y daethom i feddiant o'r capel ; ac er fy mod yn lled-gredu fod defnydd o gynnwysiad y llyfr wedi ei wneyd ar dudalenau yr Ymofynydd o'r blaen, gwnaed hyny cyn belled yn ol fel y maddeuwch i mi etto am roddi dyfyniad neu ddau o hono : "Y mae hen addoldy Blaengwrach yn sefyll ar druman craig fechan, ychydig uwchlaw afon Gwrach, mewn coedwig fechan (gynt) yn min mynydd Gwrach. Wrth ddyfod i fynu gydâg afon Nedd, oddeutu 8 neu 9 milldir, canfyddir Cwmgwrach yn ymagor ar y llaw ddeheu. Wedi dilyn y Cwm hwn i fynu gydâg afon Gwrach, yr hon sydd yn ymarllwys i Nedd, deuir yn fuan o hyd i fynydd Gwrach, ar fin pa un y saif hen Gapel Blaengwrach, oddeutu deng milldir o Gastellnedd. Adeiladwyd yr hen Gapel uchod yn mhell o ddwndwr yr holl gymmydogaeth. Bernid sefyllfa y lle yn fanteisiol iawn i addoli Duw, yn amserau blinion yr erledigaethau a ddioddefai yr Ymneillduwyr. Yr oedd y Capel uchod yn dir neillduaeth hollol. Yr oedd ansawdd pethau, yn wladol a chrefyddol, yn wahanol 180 o flynyddau yn ol i'r hyn ydynt yn bresenol. Amser

dechreuad yr achos a chodiad y Capel sydd ansicr. Dywed rhai fod Addoldy yn min mynydd Blaengwrach cyn amser deddf unffurfiaeth, dan Charles yr II.: yn ol yr hon ddeddf, y difuddiwyd tua dwy fil o offeiriaid mwyaf defnyddiol yr eglwys waddolog, am anghydffurfio yn gydwybodol, a'r ffurf newydd o Lyfr Gweddi Cyffredin, Awst 24ain, 1662..... Mae yn debygol mai y Parch. H. Thomas, Glyn Corwg, un o'r ddwy fil offeiriaid anghydffurfiol, oedd gweinidog sefydlog cyntaf Blaengwrach. Blin yw adrodd, collodd yr Annibynwyr hen Gapel Blaengwrach, trwy roddi hawl ac awdurdod i'r ymddiriedolwyr *(trustees)* na pherthynai iddynt, ac aeth i feddiant y Sosiniaid, fel llawer o'i fath yn Nghymru, ie, ac ysywaeth, yn Lloegr hefyd! Lle gynt y pregethid 'Crist wedi ei groeshoelio' yn 'Iachawdwr y byd,' gyda bywyd ac arddeliad, ac yr ymgynullai trigolion yr ardaloedd i wrando efengyl gras: nid oes yno yn bresenol ond muriau llwydaidd a moelion, yn drigle ystlumod, ac o'i fewn ychydig o weddillion oeraidd a difywyd Sosiniaeth, yn aros."

A oes rhai o'r darllenwyr a wna droi yr haeriadau hyn yn eu hol? —nid am y "murion moelion" a'r "ystlumod" 'rwy'n meddwl, ond a oedd yna unrhyw beth heblaw yr hyn oedd yn onest ac yn urddasol yn nhrosglwyddiad y capeli i feddiant yr Undodiaid? Dywed yr ysgrifenydd yn y *Merthyr Express* fod gweithredoedd y capel rywle yn nghymmydogaeth Merthyr, ac y bwriada efe ysgrifenu hanes y capel ar fyr o dro. Yr hyn y carwn I weled, Mr. Gol., yw hanes wedi ei ysgrifenu gan hanesydd profiadol, ac nid gan neb yn gwneyd hyny yn *interest* unrhyw enwad—ni cheir gafael yn y gwir yn y ffordd olaf. Carwn gael ychydig wybodaeth ar y pwnc. G.

Manion ac Hanesion.

LLWYDDIANT.—Mae yn ddywenydd genyf allu hyspysu fod Mr. E. Gwilym Evans, o Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin, wedi pasio yn llwyddiannus, ac yn y dosparth blaenaf, yr Arholiad Urdd Aelodiaeth (*Matriculation*) Prif Ysgol Llundain. Hefyd, y mae Mr. Edward John Russell, o'r un Coleg, wedi pasio yn y dosparth blaenaf yr *Intermediate Arts* Prif Ysgol Llundain. Rhwydd hynt i'r ddau yn y dyfodol etto yw dymuniad —*Arthur.*

PONTYPRIDD.—Da iawn genym ddeall fod y Parch. W. A. Clarke, diweddar o Abertawe, wedi cydsynio â chais y cyfeillion yma i fyned atynt am chwe' mis. O hyn allan bydd gwasanaeth yn y boreu ac yn yr hwyr, ac hefyd Ysgol Sul yn y prydnawn.

DUDLEY.—Mae ein cyfeillion Undodaidd yn Lloegr wedi cymmeryd dalen o'n llyfr ni yn Nghymru, ac yn ddiweddar wedi cynnal Cymmanfa Ganu lewyrchus iawn yn nghapel ein henwad yn y dref uchod. Tybiwn mai y Cymry ydynt yn gweinidogaethu yn mhlith y Saeson fuont yn cychwyn y mudiad; oblegyd cawn mai Cymro (y Parch. J. B. Lloyd), ydoedd trysordd ac arweinydd y canu. Cymro arall (y Parch. E. D. P. Evans) oedd yn pregethu; a Chymro drachefn (Mr. T. Lee Lloyd) oedd yn chwareu yr organ. Rhifai y cor tua 150, yn cynnrychioli naw o eglwysi, a bu Mr. Lloyd ar ymweliad â'r holl gorau ddwywaith cyn dydd y Gymmanfa, er eu per-

ffeithio yn y canu; ac esgorodd ei waith ffyddlon ar gyfarfod ardderchog, yr hwn oedd yn ernest o rai gwell etto yn y dyfodol. Gelwir yr Undeb yn Undeb Corawl Rhanbarth Dudley. Rhwydd hynt iddo.

Pa le mae'r adnod hynod iawn,
Ac ynddi'r un gair ddwywaith llawn
Ni chynwys hwn yn bur ddifrad
Ond pedair o lyth'renau mad.
—*Diwygiwr*, *Mai* 1839.

Dr. Talmage, wrth gyfeirio at y cyffro mewn perthynas i gredo newydd, a ddywedodd fod o leiaf 500 yn ei enwad ef allent wneuthur gwell credo na'r hen, y gallai efe ei hunan wneuthur ei gwell, ei fod wedi gwneuthur ei gwell o fewn i'r chwech wythnos diweddaf, ac wedi ei hysgrifenu yn ei goflyfr. Dyma hi: "Fy nghredo: Yr Arglwydd gogoneddus. I ymddiried ynddo, ei garu, ac i ufuddhau iddo, yw yr oll sydd yn ofynol. At y gredo hon yr wyf yn gwahodd pawb dynolryw" Pwy ddywed ar ol hyn nad yw hyd y nod Talmage yn gwella. Gall Undodwr dderbyn y gredo hon.

Cynghor i Fasnachwyr.—Adroddodd offeiriad ar ei bregeth yn ddiweddar stori am farsiandwr yn rhoddi cyfarwyddyd i'w glercod: "Pan y daw dyn i'r siop a dechreu siarad am ei onestrwydd, gwyliwch ef; os siarada am ei gyfoeth, peidiwch treio gwerthu iddo; ac os siarada am ei grefydd, peidiwch rhoi coel iddo."

Haelioni.—Yr oedd gan hen ewythr cyfoethog ddau nai, ac yn ei ewyllys yr oedd yn trefnu fel y canlyn: "I fy nai William yr wyf yn gadael fy holl ffortun, am y gwn y bydd iddo ei roddi i'r tlodion. I fy nai Albert *dim*, am yr un rheswm."

Rhywun mewn ymddyddan â Dr. Taylor a ddywedodd: "Y mae eich cyfaill Emerson yn sicr o fyned ar ei ben i uffern." I'r hyn yr atebodd Taylor, "Yr wyf yn gobeithio yr aiff e, canys cynted yr aiff, y mae yn sicr o gymmeryd mewn llaw i newid awyrgylch y lle."

SAITH RHYFEDDOD CYMRU.

Geneth lân na charo'i moli;
Gwerthwr na fo'n medru gwenu;
Prynwr onest na fo'n cyfri;
Crwthwr na fo'n arfer meddwi;
Hwsmon dalo *rot* heb grynu;
Ustus na fo'n caru holi;
Meddyg ganmol lysiau gerddi,—
Dyna saith rhyfeddod Cymru.
—*John Thomas* (*Ieuan Ddu*).

Marwgofion.

Awst 6, Margaret Davies, Queen's Arms, Llanbedr, yn 64 mlwydd oed. Yr oedd Mrs. Davies wedi colli ei hiechyd arferol er ys rhai blynyddau, ond yr oedd am amryw wythnosau cyn ei symmudiad yn wael iawn; er hyny daeth y diwedd yn dra annysgwyliadwy. Fel llawer ereill, ni chafodd ei thaith drwy'r byd hwn heb lawer iawn o rwystrau a siomedigaethau; ond ymladdodd â hwynt yn wrol a phenderfynol. Bu farw tad ei phlant pan nad oedd hi etto ond ieuanc, a nifer o rai bychain heb eu magu, ac yn ymddybynu bellach ar ymdrechion eu mam am fwyd a dillad, ac addysg; ond trwy lafur caled a dibaid, bu iddynt yn dad a mam ofalus a darbodus. Yr oedd yn feddiannol ar alluoedd meddyliol cryfion anarferol; ac ar gyfrif ei sylw manwl, a'i chof craffus, gwyddai fwy am achyddiaeth na nemawr o fewn cylch ei hadnabyddiaeth, a phur anhawdd fyddai cael y trecha'arni ar bwnc dawinyddol neu wleidyddol. Byddai yn mynychu capel Brondeifi pan mewn iechyd. Gadawodd i alaru ar ei hol wr a thri o blant, heblaw perthynasau ereill. Claddwyd yr hyn oedd farwol yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd ar ddydd ei hangladd gan y gweinidog.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.